Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Unpublished

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Cymorth i Brynu - Cymru: canllawiau ar eiddo sydd wedi'u heffeithio gan gladin allanol

Dylai priswyr RICS ddarllen y nodiadau hyn cyn iddynt wneud prisiad marchnad ar eiddo lle mae Morgais Ecwiti Cymorth i Brynu Cymru yn ei le.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Ionawr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 26 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru-canllawiau-ar-eiddo-sydd-wediu-heffeithio-gan-gladin-allanol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rydych yn derbyn y nodiadau canllaw hyn gan fod ein cwsmer cydfuddiannol wedi eich enwebu i gwblhau prisiad marchnad o eiddo y mae ein Morgais Ecwiti wedi'i warantu yn ei erbyn.

Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwerth marchnad cyfredol (a sefydlwyd yn unol â safonau prisio RICS cyfredol) yr eiddo ac i gymryd i ystyriaeth bodolaeth unrhyw gladin allanol.

O dan delerau'r Morgais Ecwiti mae ein cwsmer wedi gwneud apwyntiad er mwyn sefydlu gwerth marchnad yr eiddo ar hyn o bryd.

## Cymwysterau

Rhaid i chi fod yn syrfëwr cymwysedig RICs gydag o leiaf 10 mlynedd o brofiad, yn arbenigo mewn prisio eiddo preswyl o fewn cyffiniau'r eiddo sydd i'w brisio.

## Dogfennau Angenrheidiol

Cyn eich prisiad, rhaid i chi gael y dogfennau canlynol gan y cwsmer:

- Copi o Ffurflen EWS1 wedi'i chwblhau (os yw ar gael);
- Os yw'r eiddo o fath fflat, copi o brydles y cwsmer;
- Unrhyw amcangyfrifon y mae'r cwsmer wedi'u derbyn ynghylch costau unrhyw waith adfer;
- Tystiolaeth o swm y gronfa ad-dalu tâl gwasanaeth;
- Unrhyw ddogfennau mewn perthynas â derbyn hawliad yswiriant adeiladau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru-canllawiau-ar-eiddo-sydd-wediu-heffeithio-gan-gladin-allanol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

neu warant adeiladu; ac
- Unrhyw ddogfennau mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti (fel y datblygwr gwreiddiol) sy’n cytuno i dalu am gostau’r gwaith adfer.

## Sail y Prisiad

Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwerth marchnad cyfredol (a sefydlwyd yn unol â safonau prisio cyfredol RICS) o’r eiddo ac i gymryd i ystyriaeth bodolaeth unrhyw gladin allanol.

Wrth gynhyrchu eich prisiad, rhaid i chi ystyried bodolaeth unrhyw gladin allanol a'r Dogfennau Gofynnol (fel y disgrifir uchod) a'u heffaith ar werth marchnad yr eiddo.

Rhaid i chi hefyd ystyried:

- costau amcangyfrifedig unrhyw waith adfer, ond dim ond mewn achosion lle mae'r costau adfer wedi'u pennu gan Aseswr Risg Tân (ARA);
- cyfrifoldeb am y costau hyn, lle mae hyn eisoes wedi'i ddiffinio;
- a yw unrhyw hawliad am y gwaith adfer wedi'i dderbyn;
- a yw'r cyllid gofynnol eisoes ar gael yn y gronfa ad-dalu tâl gwasanaeth.

## Yr Adroddiad Prisio

Rhaid i chi archwilio tu mewn yr eiddo a darparu adroddiad prisio llawn. Rhaid i hyn gynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru-canllawiau-ar-eiddo-sydd-wediu-heffeithio-gan-gladin-allanol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Gwerth marchnad (nid at ddibenion morgais)
- Enw(au) cwsmer(iaid)
- Cyfeiriad llawn yr eiddo
- Dyddiad archwilio
- Gwerthiant 3 eiddo tebyg o fewn yr ardal cod post o fewn y 6 mis diwethaf, ar sail tebyg am debyg o ran: math o eiddo, maint ac oedran. Os nad yw hyn yn bosibl, darparwch y gorau sydd ar gael gennych
- o fewn yr adroddiad

Rhaid i'r adroddiad fod:

- Wedi ei llofnodi (mae e-lofnod yn dderbyniol) gan gynnwys Rhif RICS
- Ar bapur pennawd ac wedi'i ddarparu mewn dogfen na ellir ei golygu (PDF)

Ni ddylai fod gwrthdaro buddiannau rhwng unrhyw barti ac mae angen cadarnhau hyn yn yr adroddiad.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru-canllawiau-ar-eiddo-sydd-wediu-heffeithio-gan-gladin-allanol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.